Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 03 Medi 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/15 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch |
| **Ymateb erbyn:** | 24 Hydref 2025 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Rebecca Johnson \| dysgudigidol@medr.cymru |


**Crynodeb**

Mae'r ddogfen yn nodi dyraniadau cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2025/26, ac yn darparu canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys.

Bydd pob sefydliad yn cael cynnig cyllid refeniw o £40,000.


***Llinellau amser***

| Amseriad: | Carreg filltir neu gam gweithredu: |
|---|---|
| Erbyn 24 Hydref 2025 | Pob sefydliad i gadarnhau a yw'n dymuno derbyn y cyllid a gynigir gan Medr (**Atodiad A**).<br>Os derbynnir y cynnig o gyllid, dylid amlinellu sut y bwriedir defnyddio'r cyllid hwn. |
| Chwefror 2026 | Bydd y taliad interim (50% o'r dyraniad cyllid) yn cael ei brosesu yn ystod mis Chwefror. |
| Erbyn 31 Gorffennaf 2026 | Bydd hi'n ofynnol adrodd ar wariant a chyflwyno hawliad terfynol.<br>(Bydd **Atodiad B** yn cael ei ychwanegu unwaith y mae taliadau interim wedi cael eu gwneud. Bydd arweinwyr cyllid enwebedig yn cael eu hysbysu pan fo'r ffurflen hon ar gael.) |

## Cyflwyniad

1. Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26, mae Medr yn amcanu at wella a diweddaru ein dealltwriaeth am anghenion a blaenoriaethau dysgu digidol yn y sector trydyddol ac adnabod unrhyw destunau o ddiddordeb ar draws y sector sy’n cynnig potensial ar gyfer cydweithio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith a budd mentrau dysgu digidol blaenorol ar gyfer addysg bellach, ac ymgysylltu â Prifysgolion Cymru a sefydliadau AU yn ogystal â rhanddeiliaid eraill.

2. Yn y cyfamser, mae Medr wedi neilltuo cyllid refeniw i gefnogi gweithgareddau dysgu digidol cychwynnol yn y sector AU yn ystod 2025/26. Cyllid a gynigir ar gyfer blwyddyn unigol yw hwn tra ydym yn casglu tystiolaeth i oleuo dulliau a phenderfyniadau cyllido Medr yn y dyfodol (yn amodol ar gyllidebau yn y dyfodol).

## Dyraniadau

3. Gwahoddwyd aelodau o’r Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu AU a grŵp Technoleg Gwybodaeth Addysg Uwch Cymru (HEWIT) i gynghori sut y dylai’r cyllid hwn gael ei ddyrannu gan Medr.

4. Dyrannwyd cyllid refeniw digidol o £40,000 i bob un o’r sefydliadau AU a restrir isod ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26:
   - Prifysgol Aberystwyth
   - Prifysgol Bangor
   - Prifysgol Caerdydd
   - Prifysgol Metropolitan Caerdydd
   - Prifysgol Abertawe
   - Prifysgol De Cymru
   - Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
   - Prifysgol Wrexham
   - Y Brifysgol Agored Cymru (er budd myfyrwyr o Gymru)

5. Pe bai’n well gan unrhyw sefydliadau beidio â derbyn y cyllid refeniw digidol hwn ar gyfer 2025/26 am unrhyw reswm, ceir opsiwn i wrthod y cynnig o gyllid gan Medr (wedi’i gynnwys yn **Atodiad A**).

## Canllawiau ynghylch defnyddio cyllid refeniw

6. Darperir canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys yn yr adran hon. Rydym wedi amcanu at ddarparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl fel bod sefydliadau’n gallu diwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol. Os ydych yn ansicr a yw eich defnydd arfaethedig o gyllid yn gymwys, cysylltwch â dysgudigidol@medr.cymru i gael cyngor.

7. Trefnir bod y cyllid ar gael gyda'r amodau cyffredinol ar gyder talu arian gan Medr i Gorff Llywodraethu sefydliad. Caiff y rhain eu nodi yn Nhelerau ac Amodau cyllid 2025/26.

8. Dyrannwyd y cyllid yma fel cyfraniad tuag at gostau mewnol (e.e. i ddarparu amser a chapasiti wedi'u neilltuo gan unigolion allweddol) a/neu i ddod ag arbenigedd a chapasiti allanol i mewn i gefnogi'r dibenion canlynol.

9. Fe ymgynghorwyd ag aelodau o'r Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu AU a grŵp HEWIT ynghylch testunau a awgrymir ar gyfer gweithgareddau yn ystod 2025/26 a fydd yn darparu manteision ymarferol y gellir eu cyflawni. Cafodd y testunau canlynol eu hadnabod fel y tair prif flaenoriaeth.

10. **Gellir cynnwys** y canlynol fel gwariant refeniw cymwys:

| | |
|---|---|
| **Trawsnewid Digidol a datblygu dulliau strategol o ymdrin â dysgu digidol** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• asesu sefyllfa gyfredol eich sefydliad ac adnabod blaenoriaethau mewn perthynas â dysgu digidol<br>• datblygu, neu adolygu a diweddaru, cynlluniau gweithredu sefydliadol ar gyfer dysgu digidol a/neu drawsnewid digidol<br>• archwilio sut y gallai mabwysiadu a/neu integreiddio technolegau ac offer digidol wella profiadau dysgu a/neu gyflogadwyedd myfyrwyr<br>• hwyluso ymgysylltiad â myfyrwyr a staff fel rhan o brosesau dylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr a phrosesau penderfynu sefydliadol sy'n gysylltiedig â dysgu digidol<br>• casglu, mesur a dadansoddi data meintiol ac adborth ansoddol gan fyfyrwyr a staff i ddangos effaith gweithgareddau dysgu digidol a gwerthuso cynlluniau peilot<br>• amser a chapasiti gan unigolion allweddol i ymgysylltu â gweithgareddau cydweithredol a/neu ymchwil gydweithredol a gydlynir gan Jisc ar ran Medr |
| **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• datblygu syniadau neu ddulliau a ysbrydolwyd gan Gynhadledd Gydweithredol Cymru: AI mewn Addysg 2025<br>• arloesi, archwilio a threialu technolegau ac offer AI i'w defnyddio mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu<br>• integreiddio technolegau, offer a/neu ddulliau newydd yn dilyn treialu blaenorol (yn eich sefydliad, neu gan dynnu ar brofiadau darparwyr addysg drydyddol eraill)<br>• hyfforddi ac uwchsgilio unigolion allweddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch treialu neu â mabwysiadu technolegau ac offer newydd<br>• amser a chapasiti gan unigolion allweddol i ymgysylltu ag ymchwil gydweithredol a gydlynir gan Jisc ar ran Medr |

| **Defnyddio a rheoli data'n effeithiol** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• gwella'r modd y rheolir ac y defnyddir data'n fewnol mewn perthynas â phrofiad myfyrwyr ac mewn perthynas â dysgu ac addysgu<br>• datblygu neu adolygu'r modd y mae eich sefydliad yn defnyddio dadansoddeg dysgu<br>• archwilio sut y gellid defnyddio data myfyrwyr i wella gwasanaethau a/neu ddatblygu dulliau newydd<br>• gwella dealltwriaeth staff am ddata myfyrwyr, arfer da o ran rheoli data, a/neu sgiliau defnyddio data |
|---|---|

11. **Ni ellir** defnyddio cyllid refeniw ar gyfer:

- Costau deunydd a nwyddau hyrwyddo; a/neu wobrwyon i unigolion am gyfranogi mewn gweithgareddau neu am ddarparu adborth
- Costau teithio a chynhaliaeth staff
- Costau y tu allan i'r cyfnod cyllido hwn (h.y. ar ôl 31 Gorffennaf 2026)

  *Rhaid i'ch sefydliad beidio â bod ag unrhyw ddisgwyliad y bydd Medr yn darparu cyllid pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol a rhaid i unrhyw gostau a gefnogir yn ystod y cyfnod hwn beidio â chreu dibyniaeth ar gyllid yn y dyfodol (er enghraifft; ar gyfer cytundebau trwyddedau parhaus).*

  *Eich sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd unrhyw gostau parhaus neu gylchol yn gynaliadwy yn y dyfodol.*

## Derbyn y cyllid

12. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gwblhau a dychwelyd y ffurflen yn **Atodiad A** er mwyn:

- Cadarnhau'n ffurfiol a yw eich sefydliad yn dymuno derbyn y cyllid hwn

Os derbynnir y cyllid, mae'n ofynnol i chi:

- Enwebu unigolyn priodol yn eich sefydliad fel y cyswllt arweiniol mewn perthynas â'r cyllid hwn
- Amlinellu'n fras beth yw eich bwriadau ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn

13. Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llofnodi i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 24 Hydref 2025. Mae gofyn dychwelyd y ffurflen fel hyn cyn y bydd taliad interim yn cael ei brosesu gan Medr.

14. Hysbyswch Medr ar y cyfle cynharaf os ydych yn rhagweld na fyddwch yn gallu gwario eich dyraniad yn llawn.

## Monitro a thalu'r cyllid

15. Yn amodol ar ddychwelyd **Atodiad A**, bydd taliad interim (50% o ddyraniad eich sefydliad) yn cael ei amserlennu yn ystod mis Chwefror 2026.

16. Bydd hi'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth am wariant erbyn 31 Gorffennaf 2026 i ryddhau'r taliad terfynol. Bydd y 50% sy'n weddill o ddyraniad eich sefydliad ar gael ar yr adeg hon. Dim ond yn erbyn gwariant gwirioneddol a gafwyd erbyn 31 Gorffennaf 2026 y dylech hawlio. Bydd swm y taliad terfynol hwn yn cael ei addasu yn unol â'r gwariant gwirioneddol a gafwyd, hyd at gyfanswm gwerth dyraniad eich sefydliad.

17. Unwaith y bydd taliadau interim wedi cael eu gwneud, bydd y ffurflen i'w defnyddio wrth wneud hawliad terfynol eich sefydliad a darparu gwybodaeth am wariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei hychwanegu fel **Atodiad B**. Bydd arweinwyr cyllid enwebedig yn cael eu hysbysu pan fydd y ffurflen hon ar gael.

### Rhannu gwybodaeth

18. Bydd disgwyl i bob derbynnydd cyllid gynnal cyswllt â Jisc i gynhyrchu stori prosiect, astudiaeth achos, neu enghraifft o weithgaredd a gyllidwyd y gellir ei rhannu'n fwy eang. Gan ddibynnu ar natur gweithgareddau a gyflawnwyd yn eich sefydliad, gallai fformatau priodol ar gyfer yr wybodaeth hon gynnwys:
    - Postiad blog
    - Podlediad neu gyfweliad a recordiwyd
    - Cyflwyniad ar gyfer cyfarfod neu ddigwyddiad rhwydwaith perthnasol; darparu llefarydd neu aelod o banel ar gyfer cynhadledd berthnasol

19. Gofynnir i chi awgrymu rhai pwyntiau allweddol i'w cyfleu'n ehangach yn eich adroddiad diwedd blwyddyn (**Atodiad B**). Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda Jisc.

### Rhagor o wybodaeth

20. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at Rebecca Johnson (dysgudigidol@medr.cymru).

Medr/2025/15: Atodiad A

## Cyllid Refeniw Digidol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yn 2025/26

Rhaid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau i dysgudigidol@medr.cymru **erbyn 24 Hydref 2025**.

### Adran 1: Derbyn y cyllid

| **Manylion derbynnydd y cyllid:** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |

| **Ydych chi'n dymuno derbyn y cyllid refeniw digidol hwn o £40,000?** | **Ydym** | **Nac ydym** |
|---|---|---|
| | | |
| **Dyddiad y penderfyniad:** | | |

**Os yw'r cyllid wedi cael ei dderbyn, mae'r wybodaeth ganlynol yn ofynnol hefyd.**

| **Cyswllt arweiniol enwebedig ar gyfer y cyllid hwn:** | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |

### Adran 2: Sut y bwriedir defnyddio'r cyllid

Gan gyfeirio at ein canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys, dynodwch sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn. Bydd taliad interim yn cael ei wneud yn ystod mis Chwefror 2026.

Ar yr adeg hon, gallwch ddynodi amcangyfrif o swm y cyllid neu amcangyfrif o ganran y cyllid yn erbyn pob categori perthnasol. Gofynnir am fanylion gwariant wedi'i eitemeiddio ar ddiwedd cyfnod y grant, fel rhan o hawliad terfynol eich sefydliad.

Os na ddisgwylir unrhyw wariant yn erbyn categori, rhowch 'Amh.' ar ei bwys.

| **2.1 Cyllid refeniw** | | |
|---|---|---|
| **Categori gwariant:** | **Math o wariant bwriadedig:** | **Amcangyfrif o swm neu ganran y cyllid refeniw:** |
| **Trawsnewid Digidol a datblygu dulliau strategol o ymdrin â dysgu digidol** | | |
| **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Defnyddio a rheoli data'n effeithiol** | | |

Os nad ydych yn gallu defnyddio eich dyraniad yn llawn am unrhyw reswm, hysbyswch Medr cyn gynted â phosibl (trwy: dysgudigidol@medr.cymru).

## Cyllid Refeniw Digidol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yn 2025/26

Bydd yr atodiad hwn yn cael ei ychwanegu unwaith y bydd taliadau interim wedi cael eu gwneud.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**